School case study
Cyfarthfa High School

School details

Local Authority: Merthyr Tydfil
School type: High School
Number of children at school: 1,121
Number of Service Children at school: 8

Most common support needs of Service Children in your school:

- Additional support with core subjects and support with learning gaps.
- Additional pastoral/emotional support required during times of mobility and deployment
- Close links with families including home visits to plan bespoke support.

Details of the support your school provides to its Service Children:

- A successful application to the Supporting Service Children in Wales Fund in 2018 made it possible to employ a part-time Service Family Liaison Officer in school to support our Service children. This role coordinates training and activities to support our Service community.
- The Service Family Liaison Officer will run a program of events to raise awareness within the school community, including assemblies to all year groups. We aim to engage our service pupils and to develop relationships with them and their families; this will include home visits to plan bespoke and robust support that is pupil focused. As a school we aim to develop new links in the community, with the Infantry Training School and Brecon Barracks community development worker and other groups to support our pupils.
- The Service Family Liaison Officer will also work to engage with our feeder primary schools to ensure that transition of forces pupils from Year 6 into Cyfarthfa High School is smooth and we are able to plan support for them moving forward. The intention is for the Service Family Liaison Officer to visit feeder primary schools and to deliver sessions to increase awareness of the challenges service families face.

Astudiaeth Achos Ysgol Ysgol Uwchradd Cyfarthfa

Manylion ysgol

Awdurdod Lleol: Merthyr Tudful
Math o Ysgol: Ysgol Uwchradd
Nifer y plant yn yr ysgol: 1,121
Nifer y Plant Gwasanaeth yn yr ysgol: 8

Anghenion cefnogi mwyaf cyffredin y Plant Gwasanaeth yn eich ysgol:

- Cefnogaeth ychwanegol gyda phynciau craidd a chefnogaeth gyda bylchau dysgu.
- Cefnogaeth emosiynol / bugeiliol ychwanegol sydd ei angen ar adeg symud a lleoli
- Cysylltiadau agos gyda theuluoedd gan gynnwys ymweliadau i'r cartref i gynllunio cefnogaeth unigryw.

Manylion y gefnogaeth y mae eich ysgol yn ei ddarparu i'r Plant Gwasanaeth:

- Mae cais llwyddiannus i Gronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn 2018 wedi'i gwneud yn bosibl cyflogi Swyddog Cyswllt Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn rhan amser yn yr ysgol i gefnogi ein Plant o Deuluoedd Lluoedd Arfog. Mae'r rôl yn cydlynu hyfforddiant a gweithgareddau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.
- Bydd Swyddog Cyswllt Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth yng nghymuned yr ysgol, gan gynnwys gwasanaethau i'r holl grwpiau blwyddyn. Rydym yn awyddus i ymgysylltu â'n disgyblion sydd â chysylltiad â'r lluoedd arfog a datblygu perthnasau gyda nhw a'u teuluoedd; bydd hyn yn cynnwys ymweliadau i'r cartref i gynllunio cefnogaeth unigryw a chadarn sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Fel ysgol rydym yn ceisio datblygu cysylltiadau newydd yn y gymuned, gyda'r Ysgol Hyfforddi Milwyr a gweithiwr datblygu cymunedol Barics Bannau Brycheiniog a grwpiau eraill i gefnogi ein disgyblion.
- Bydd Swyddog Cyswllt Teuluoedd y Lluoedd Arfog hefyd yn gweithio i ymgysylltu â'n hysgolion cynradd yn y clwstwr i sicrhau bod disgyblion o deuluoedd lluoedd arfog yn symud o Flwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn llyfn ac y gallwn gynllunio cefnogaeth ar eu cyfer wrth symud ymlaen. Ein bwriad yw y bydd Swyddog Cyswllt Teuluoedd y Lluoedd Arfog yn ymweld â'r ysgolion cynradd ac yn darparu sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae teuluoedd y lluoedd arfog yn eu hwynebu.